**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd CF99 1SN

Paul.Davies@senedd.wales

2 Chwefror 2023

Annwyl Paul,

**Parthed: Argymhellion y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Iechyd Planhigion, Amrywogaethau a Hadau Planhigion, Cymorth Amaethyddol, Gwrteithiau a Chynhyrchu Organig**

Diolch ichi am adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRC) a rannwyd â swyddogion ar 9 Rhagfyr 2022 yn manylu argymhellion y pwyllgor ar gyfer cytundebau y fframwaith dros dro ar Iechyd Planhigion, Amrywogaethau a Hadau Planhigion, Cymorth Amaethyddol, Gwrteithiau a Chynhyrchu Organig.

Fel y gwyddoch, mae Senedd y DU, Senedd yr Alban a Senedd Gogledd Iwerddon yn craffu ar y fframweithiau hefyd. Bydd angen inni aros i'w Pwyllgorau hwy gwblhau'r gwaith craffu cyn y gallwn ymateb i'ch argymhellion chi. Mae'r dull hwn o ran ymateb i argymhellion Pwyllgorau wedi'i gytuno ar sail pedair gwlad ac mae'n cyd-fynd â'r ysbryd gweithio a chytuno fel pedair gwlad sy'n ymgorffori rhaglen y Fframwaith Cyffredin. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo argymhelliad yn ymwneud â gwall ffeithiol sy'n achosi risg i enw da un neu ragor o'r Llywodraethau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwn felly yn ysgrifennu atoch eto unwaith y byddwn wedi cael yr argymhellion gan holl ddeddfwrfeydd y DU ac unwaith y bydd y pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ynghylch y newidiadau i'r fframweithiau sydd eu hangen mewn ymateb i'r argymhellion.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ymateb llawn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, fodd bynnag, gofynnwn ichi dderbyn y llythyr hwn am y tro. Yn y cyfamser, os oes materion brys o ran polisi yr hoffech chi wybodaeth neu eglurhad yn eu cylch, ysgrifennwch atom a byddwn yn hapus i ymateb i'r rhain oddi allan i'r broses graffu.

Nodwn fod rhai o'ch argymhellion eraill yn cyfeirio at y rhaglen fframweithiau yn gyffredinol. Byddwn yn tynnu sylw'r Cwnsler Cyffredinol at y rhain, sef y gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi fframweithiau.

Dymuniadau gorau,



**Lesley Griffiths**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**



**Julie James**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.